Cefnogi Trydydd Sector Cymru
Third Sector Support Wales

Third Sector Support Wales **Engagement Events**

The Future of Fundraising

Increased workload often means it's difficult to keep abreast of all the changes and developments happening both locally and nationally which have an impact on our work.

To help with this Third Sector Support Wales partners* are offering a regular series of free information events focussing on topical issues, which cut across the breadth of third sector activity, in relation to the four pillars of our joint work: volunteering, sustainable funding, good governance and strategic engagement and influencing. Designed to complement the activities of local themed networks and forums, these events will provide you with an opportunity to hear about the support available to your organisation through Third Sector Support Wales and to tell us what support you really need going forward.

The events take place on the following dates and locations:



9.30am-12.30pm
Monday 10 July
PAVO, Llandrindod Wells

9.30am-12.30pm
Thursday 13 July
FLVC, Mold

9.30am-12.30pm
Tuesday 11 July
Canolfan Soar, Merthyr Tydfil

The first round of events will focus specifically on fundraising and we'll hear from the Fundraising Regulator's team about a range of issues, including the new Fundraising Preference Service and its implications for your organisation. We'll also hear about the Institute of Fundraising's new project which aims to use experienced mentors to work with your organisation to review and strengthen your fundraising practices.

www.thirdsectorsupport.wales

*Third Sector Support Wales is a network of support organisations for the whole of the third sector in Wales. It consists of the 19 local and regional support bodies across Wales, the County Voluntary Councils (CVCs) and the national support body, Wales Council for Voluntary Action (WCVA). We work with citizens, volunteers and third sector groups to identify and address what matters to them)

Ariennir yn Rhannol gan **Lywodraeth Cymru**
Part Funded by **Welsh Government**

Cefnogi Trydydd Sector Cymru

Third Sector Support Wales

Digwyddiadau Ymgysylltu
Cefnogi Trydydd Sector Cymru
Dyfodol Codi Arian

Mae llwyth gwaith cynyddol yn aml yn ei gwneud yn anodd cadw golwg ar yr holl newidiadau a datblygiadau sy'n digwydd yn lleol ac yn genedlaethol sy'n effeithio ar ein gwaith.

I helpu gyda hyn mae partneriaid Cefnogi Trydydd Sector Cymru* yn cynnig cyfres reolaidd o ddigwyddiadau gwybodaeth am ddim yn canolbwyntio ar faterion cyfredol, sy'n torri ar draws amrywiaeth gweithgaredd y trydydd sector, mewn perthynas â phedair colofn ein gwaith ar y cyd: gwirfoddoli, cyllid cynaliadwy, llywodraethu da ac ymgysylltu a dylanwadu strategol. Y nod yw y bydd y digwyddiadau hyn yn ategu gweithgareddau rhwydweithiau a fforymau thematig lleol, ac yn rhoi cyfle i chi glywed am y cymorth sydd ar gael i chi drwy Cefnogi Trydydd Sector Cymru a dweud wrthym ni pa gymorth rydych yn wir ei angen wrth fynd ymlaen.

Dyma ddyddiadau a lleoliadau'r cyfarfodydd:



9.30am-12.30pm
dydd Llun 10 Gorffennaf

Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys, Llandrindod

9.30am-12.30pm
dydd Iau 13 Gorffennaf

Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint, Yr Wyddgrug

9.30am-12.30pm
dydd Mawrth 11 Gorffennaf

Canolfan Soar, Merthyr Tudful

Bydd y rownd gyntaf o ddigwyddiadau yn canolbwyntio'n benodol ar godi arian a byddwn yn clywed gan dîm y Rheoleiddiwr Codi Arian ynglŷn ag ystod o faterion, gan gynnwys y Gwasanaeth Dewis Codi Arian newydd a'i oblygiadau i'ch mudiad chi. Byddwn hefyd yn clywed am brosiect newydd y Sefydliad Codi Arian sy'n bwriadu defnyddio mentoriaid profiadol i weithio gyda'ch mudiad i adolygu a chryfhau'ch arferion codi arian.

www.thirdsectorsupport.wales

* Rhwydwaith o fudiadau cymorth i'r trydydd sector cyfan yng Nghymru yw Cefnogi Trydydd Sector Cymru. Ceir ynddo'r 19 corff cymorth lleol a rhanbarthol ledled Cymru, y Cynghorau Gwirfoddol Sirol, a'r corff cymorth cenedlaethol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA). Rydym yn gweithio gyda dinasyddion, gwirfoddolwyr a grwpiau trydydd sector i ganfod yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw ac i weithredu yn unol â hynny.

Ariennir yn Rhannol gan **Lywodraeth Cymru**
Part Funded by **Welsh Government**